## Yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

Ar 2 Mawrth 2009, gosodwyd Mesur arfaethedig y Llywodraeth, 'Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)', gerbron y Cynulliad.

Ar 9 Rhagfyr 2008, penderfynodd y Cynulliad sefydlu pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, i'w adnabod fel Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, i ystyried y cynigion deddfwriaethol a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes.

Ar 3 Mawrth 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac i baratoi adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i'r pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r pwyllgor adrodd i'r Cynulliad erbyn 12 Mehefin 2009.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Mawrth 2009**